# Partneriaeth Strategol rhwng Urdd Gobaith Cymru a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

MAI 2007

WLGA • CLILC

urdd.org

# Cyswllt

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600
Ffacs: 029 2046 8601

www.wlga.gov.uk

**Urdd Gobaith Cymru**
Swyddfa'r Urdd
Ffordd Llanbadarn
Aberystwyth
SY23 1EY

Ffôn: 01970 613100
Ffacs: 01970 626120

www.urdd.org

**Cyhoeddwyd:** Mai 2007

**Hawlfraint:** WLGA

**ISBN:** 1 901719 92 8

# 1. Ein delfryd

## Dymuna Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Urdd Gobaith Cymru gydweithio er mwyn bod:

- gweithgareddau'r Urdd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a strategaethau cenedlaethol
- ymwybyddiaeth o waith yr Urdd yn uchel o fewn awdurdodau lleol Cymru
- rôl yr Urdd wrth ddarparu cyfleoedd hamdden a diwylliant i blant a phobl ifanc trwy Gymru gyfan yn cael ei hyrwyddo yn effeithiol
- cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a'r Urdd yn sicrhau effeithiolrwydd, osgoi dyblygu a darparu cyfleoedd newydd
- cyfleoedd diwylliannol a hamdden yr Urdd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc trwy Gymru
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn derbyn cefnogaeth o bob cwr o Gymru
- Awdurdodau lleol a'r Urdd yn cydweithio i sicrhau fod darpariaeth gwasanaethau ieuenctid ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg trwy Gymru

# 2. Cefndir

## 2.1 Urdd Gobaith Cymru

Nod Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Corff cenedlaethol yw Urdd Gobaith Cymru sy'n darparu gwasanaeth a gweithgareddau i'w aelodau sydd rwng 8 a 25 oed. Mae'n gweithredu trwy 17 o ranbarthau, sydd yn eu tro yn perthyn i un o 3 talaith, a'r cyfan yn rhan o gyfundrefn genedlaethol. Allwedd llwyddiant yr Urdd yw'r bartneriaeth rhwng ei aelodau, gwirfoddolwyr a staff yr Urdd. Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau yn flynyddol, dros 180 aelod o staff ac amcangyfrifir fod hyd at 10,000 o wirfoddolwyr yn cyfrannu tuag at weithgareddau'r Urdd yn flynyddol.

Mae'n awyddus i sicrhau ei fod yn cynnig cymaint o gyfleoedd â phosibl i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd hamdden a chymdeithasol bob dydd, yn unol ag amcanion 'Iaith Pawb'.

Mae'r Urdd yn dilyn Datganiad y Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru, ac mae'n awyddus i sicrhau hunan-barch a hunanwerth unigolion.

Mae'r Urdd wedi ei rannu yn weinyddol i 7 o adrannau. Mae 10 o weithwyr yn gweithio i Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau, 49 i'r Adran Ieuenctid a Chymunedol, 10 i'r Adran Gwasanaethau Cenedlaethol, 4 i'r Adran Gyfathrebu ac aelodaeth a dros 100 yng ngwersylloedd preswyl yr Urdd yn Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd.

Mae gan yr Urdd drosiant o dros £6m. Mae ei ffynonellau incwm yn cynnwys incwm o'r gwersylloedd, grantiau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a'r awdurdodau lleol, tâl aelodaeth, nawdd ac incwm drwy roddion a chymynroddion.

Cynigia'r Urdd weithgareddau i'w aelodau ar lefel leol, daleithiol a chenedlaethol, gan gynnwys y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, eisteddfodau, a digwyddiadau chwaraeon, cymdeithasol a diwylliannol.  Mae cyfle hefyd i fynychu gwersylloedd preswyl, ac i fynychu teithiau eraill achlysurol.

Cyhoedda'r Urdd dri chylchgrawn misol i Gymry Cymraeg a dysgwyr, a chânt eu darllen gan bron i 30,000 o blant a phobl ifanc bob mis.

Mae Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn ddigwyddiad

diwylliannol o bwys yng Nghymru gyda 40,000 yn cystadlu mewn dros 100 o eisteddfodau lleol cyn bod 15,000 yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol, sy'n denu 100,000 o ymwelwyr yn flynyddol. Mae'r Eisteddfod yn teithio o amgylch Cymru, ar wahoddiad awdurdodau lleol. Yr Eisteddfod yw gŵyl ieuenctid cystadleuol mwyaf Ewrop, gyda mwy yn cystadlu nag unrhyw ŵyl neu gystadleuaeth arall yng Nghymru.

## 2.2 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn cynrychioli buddiannau byd llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Mae hi'n cynrychioli 22 awdurdod lleol Cymru ac mae'r 3 gwasanaeth tân cyfunol, awdurdodau'r 3 pharc cenedlaethol a 4 awdurdod yr heddlu yn aelodau cyswllt.

Cafodd y WLGA ei sefydlu ym 1996 yn gorff gwleidyddа a chynrychioli a'i phrif ddibenion yw hyrwyddo safonau ac enw da maes llywodraeth leol. Mae hefyd yn cynorthwyo'r awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau i'r cyhoedd a democratiaeth. Erbyn heddiw, mae'r WLGA wedi tyfu'n sefydliad sy'n arwain ym meysydd datblygu a gwella, cydraddoldeb, caffael a materion cyflogaeth hefyd.

Mae'r 22 cyngor oll yn cymryd rhan gyflawn a gweithgar, ac mae'r 22 arweinydd, a'r 79 o aelodau Cyngor WLGA yn cynnal ac yn cymeradwyo gweithgareddau allweddol. Mae felly yn cynrychioli pob awdurdod - boed yn y gogledd neu'r de, mewn ardal drefol neu wledig - a phob plaid wleidyddol. Arweinyddion y cynghorau sy'n cynnal y prif weithgareddau dylanwadu a chynrychioli trwy eu rôl fel Llefarwyr WLGA ar feysydd polisi penodol. Cyngor WLGA sy'n caniatáu iddyn nhw gyflawni'r rolau hynny. Mae Llefarwyr WLGA yn cysylltu â Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad a San Steffan yn rheolaidd am bolisïau, strategaethau a materion ariannol.

At hynny, mae WLGA yn dibynnu ar gymorth arbenigol swyddogion yn y 22 awdurdod lleol trwy rwydweithiau arbenigol a hefyd trwy nifer o swyddogion mae WLGA yn eu penodi'n ffurfiol o blith 22 awdurdod lleol Cymru a'r aelodau cyswllt i'w chynghori am wasanaethau a meysydd penodol.

Mae'r WLGA yn gyfrifol am ystod o feysydd polisi sy'n berthnasol i waith yr Urdd gan gynnwys addysg, plant a phobl ifanc, hamdden a diwylliant.

# 3. Ein Hymrwymiad—Cydweithio

3.1 **Plant a Phobl Ifanc**

## 3.1 Plant a Phobl Ifanc

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau a chyfrifoldebau. Yng Nghymru, mae polisïau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael eu hysbysu gan ac yn cydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae gan erthyglau penodol berthnasedd arbennig i'r bartneriaeth strategol hon, gan gynnwys: gynnwys:

**Erthygl 15** - Mae gan bob plentyn yn hawl i gyfarfod â phlant a phobl ifanc eraill, a'r hawl i ymuno â grwpiau a sefydliadau.

**Erthygl 29** - Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau plentyn yn llawn. Dylid annog plant i barchu eu diwylliant eu hunain ac eraill.

**Erthygl 31** – Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Mae'n bwysig fod yr Urdd a'r WLGA yn gweithio mewn partneriaeth ar lefel strategol i sicrhau fod y ddarpariaeth yn ddigonol ac yn cael ei ddatblygu i roi cyfle i blant a phobl ifanc ar draws Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol, hamdden a diwylliannol.

Mae awdurdodau lleol a'r Urdd wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i sicrhau fod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y cyfle i fyw bywydau llawn ac egniol.

Byddwn yn gweithio o fewn fframwaith partneriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru - Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu i'r Hawliau i helpu cyflawni'r saith nod craidd a amlinellir yn y ddogfen gan gynnwys:

**Nod 2** – Yr hawl i ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu.

**Nod 4** - Gweithgareddau Chwarae, Hamdden, Chwaraeon a Diwylliant

Gall awdurdodau lleol a'r Urdd hefyd gydweithio i gyflawni'r hawliau sy'n cael eu crisialu yn nogfen Uned Bolisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru' fel mae'r enghreifftiau isod yn dangos:

| Hawl | Gweithgaredd yr Urdd | Rôl awdurdodau lleol |
|---|---|---|
| *Cyfleoedd i gyflawni, ym mha faes y dymuna, gan dderbyn achrediad a chlod am ei lwyddiannau.* | Cynnal Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a Chenedlaethol<br><br>Cyhoeddi cylchgronau a chynnal gwefan<br><br>Cynnig hyfforddiant i wirfoddolwyr ac aelodau | Cefnogi gweithgareddau'r Urdd drwy adrannau addysg/hamdden perthnasol<br><br>Dosbarthu gwybodaeth drwy newyddlenni perthnasol ac annog cydweithio gyda thimau athrawon bro.<br><br>Codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd gwirfoddoli |
| *Cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch.* | Gweithgaredd cymunedol o fewn y rhanbarthau<br><br>Cynnal rhaglen o weithgaredd amser gwyliau/tu allan i oriau ysgol. | Cydweithio gydag adrannau gwasanaeth ieuenctid/addysg perthnasol<br><br>Cynnig lleoliadau addas fel bo'n berthnasol |
| *Profiadau chwaraeon, celf ac awyr agored ar gyfer datblygu talentau ac ehangu gorwelion, gan gynnwys persbectif rhyngwladol* | Gwersyll Glan-llyn<br>Gwersyll Caerdydd<br>Gwersyll Llangrannog<br>Gwersyll Pentref Ifan<br><br>Gweithredu Strategaeth Chwaraeon Urdd Gobaith Cymru<br><br>Datblygu prosiectau dyngarol, gan gynnwys Neges Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru | Cefnogi cyfleoedd i blant o'r awdurdod gael cyfle i fynychu gwersylloedd yr Urdd<br><br>Adrannau hamdden i gydweithio gyda'r Urdd, yn enwedig wrth ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Cydweithio gyda'r Urdd yn flynyddol i ddatblygu prosiectau |

Mae'r Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid yn annog mwy o gydweithio rhwng y gwasanaeth ieuenctid statudol a'r sector wirfoddol ym maes gwaith ieuenctid, gan gysylltu â phobl ifanc cymaint â phosibl drwy gynnig gwasanaethau safonol a hygyrch mewn modd cyfranogol sy'n rhoi grym i bobl ifanc.

Bydd yr Urdd ac WLGA yn cymryd rhan weithredol i sicrhau llwyddiant y strategaeth, a byddwn yn trafod ffyrdd o wneud y defnydd gorau o gryfderau pob partner er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Byddwn hefyd yn datblygu cyfleoedd i rannu enghreifftiau arfer da o gydweithio.

Bydd pwyslais cynyddol ar Llwybrau Dysgu 14-19 Oed wrth ddarparu dysgu ffurfiol ac anffurfiol, gan fynd i'r afael â'r angen am ddulliau mwy hyblyg a chytbwys o ddysgu pobl ifanc 14-19 oed. Gall y Gwasanaeth Ieuenctid statudol, mewn cydweithrediad a'r sector wirfoddol ieuenctid gynnig nifer o'r cyfleoedd yma (achrededig neu beidio), yn ogystal â chwarae rhan yn yr elfen gefnogaeth bersonol yn Llwybrau Dysgu 14-19 Oed. Mae datblygu gweithlu sy'n gallu darparu gwasanaethau dwyieithog yn greiddiol i'r broses hwn.

Bydd yr Urdd a'r WLGA yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau fod y cyfleoedd am ddysgu ffurfiol ac anffurfiol, sydd ar gael yn naturiol drwy waith yr Urdd, ar lefel lleol a rhanbarthol, neu drwy ei wersylloedd, yn wybyddus i bobl ifanc. I gyflawni hyn, bydd angen i'r Urdd a'r WLGA weithio gyda Rhwydweithiau Llwybrau Dysgu 14-19 .

Mae'r Datganiad Cwricwlwm ar Waith Ieuenctid wedi ei ail-lansio ac yn cael ei ddatblygu gan y Pwyllgor Sefydlog ar Waith Ieuenctid - ystod o sefydliadau sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Mae'r Urdd a'r WLGA wedi ymrwymo i'w egwyddorion.

Trwy weithio gyda'n gilydd yn strategol, gallwn wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i bobl ifanc yng Nghymru, a gallwn gynllunio yn strategol ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol ar gyfer darparu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i bobl ifanc Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gweithio'n rhanbarthol

Tynnodd adolygiad Beecham o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sylw at yr angen i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau oedd yn canolbwyntio ar y

dinesydd, ac i weithio yn agosach ar sail ranbarthol. Mae'r WLGA yn ymrwymedig i'r dull hwn o weithio ac wedi sefydlu pedwar bwrdd rhanbarthol i gynorthwyo'r broses o gydweithio:

Mae'r partneriaethau rhanbarthol yma yn cydgyfrannu arbenigedd, rhannu arfer da ac yn gynyddol yn cynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd. Mae cyrff proffesiynol sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol hefyd yn datblygu dulliau mwy rhanbarthol o weithio.

Bydd yr Urdd a'r WLGA yn ystyried dulliau o weithio o fewn y ffiniau rhanbarthol yma gan ddatblygu perthynas mwy effeithiol a mwy hyblyg rhwng awdurdodau lleol a'r Urdd. Yn benodol, byddwn yn rhoi ystyriaeth i ymdriniaeth fwy rhanbarthol i leoli'r Eisteddfod yn y dyfodol.

## 4. Gweithdrefnau

Bydd WLGA a'r Urdd yn datblygu'r bartneriaeth mewn amryw ffyrdd:

### Cenedlaethol

- O leiaf un cyfarfod blynyddol rhwng uwch swyddogion y ddau sefydliad i drafod materion o berthnasedd
- Hybu ymwybyddiaeth o ddatblygiadau'r Urdd trwy berthynas WLGA ac SOLACE, ADEW, CORL a Rhwydiaith
- Cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau cenedlaethol yr Urdd trwy fwletinau amrywiol WLGA.

### Rhanbarthol

- Annog mwy o gydweithio rhanbarthol yng nghefnogaeth awdurdodau lleol o'r Eisteddfod
- Cydweithio rhwng uwch-swyddogion yr Urdd a swyddogion rhanbarthol WLGA

### Lleol

Bydd yr Urdd yn cydweithio gydag awdurdodau lleol amrywiol trwy gyfrannu at waith Partneriaethau Plant a Phobl ifanc

## 5. Monitro ac Adolygu

Bydd yr Urdd a'r WLGA yn adolygu'r bartneriaeth a'i heffeithiolrwydd yn rheolaidd.

Bydd y Cyngor ac WLGA yn adrodd ar y Cytundeb hwn trwy gyhoeddiadau megis yr adroddiadau blynyddol.